

Llyfrau ar werth o lyfrgell

D. BEN REES

(Un o'r llyfrgelloedd mwyaf ei maint)

32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl/Liverpool L18 6HW

Ffôn: (0151) 724 1989 Ffacs: (0151) 724 5691

LLYFRAU SAESNEG AR GAEL HEFYD

- | | |
|--|---|
| 1. Thomas Stephens: <i>Y Cymry</i> . (3ydd argraffiad) c.c..... £5.00 | 29. Gwyn Thomas: <i>Cadwynau yn y Meddwl</i> . 1976, c.m..... £2.50 |
| 2. John Morris-Jones: <i>Caniadau</i> . 1907, dim ond 302 a gyhoeddwyd. Clawr lledr..... £25.00 | 30. Morgan D. Jones: <i>Termau Iaith a Llên</i> . 1972, c.c..... £4.00 |
| 3. Keri Evans: <i>Cofiant Dr Joseph Parry</i> . 1921, c.c..... £6.00 | 31. D. S. Thomas: <i>Yr Oriol Lenyddol</i> . Cyfrol a argraffwyd a chyhoeddwyd yn Utica, UDA, 1901, c.c..... £15.00 |
| 4. R. T. Jenkins: <i>Ffrainc a'i Phobl</i> . 1930, c.c..... £6.00 | 32. Hugh Evans: <i>Cwm Eithin</i> . (Ail argraffiad), c.c..... £5.00 |
| 5. Cyril Williams: <i>Crefyddau'r Dwyrain</i> . 1968, c.c..... £10.00 | 33. D. E. Jenkins, Dinbych (Gol.): <i>Ymyl Ei Wisg: Pregethau D. Charles Davies</i> . Cyhoeddwyd gan W. Price Jones, Trefnant, c.c..... £10.00 |
| 6. Gwenallt: <i>Eples</i> . (ail argraffiad 1960), 1968, c.c..... £4.00 | 34. T. Gwynn Jones: <i>Beirniadaeth a Myfyrdod</i> . 1935, c.c..... £5.00 |
| 7. Gwenallt: <i>Ysgubau'r Awen</i> . (pedwerydd argraffiad), 1960, c.c. £4.00 | 35. R. R. Hughes: <i>Y Dyn a'i Dynged</i> . 1934, c.c..... £4.00 |
| 8. Gwilym Prys Davies: <i>Y Ffermw'r Gyfraith</i> . 1968, c.c..... £5.00 | 36. D. Ben Rees (Gol.): <i>Dal Ati i Herio'r Byd</i> . 1988, c.c..... £4.00 |
| 9. T. H. Parry-Williams: <i>Ystoriau Heddiw</i> . (5ed argraffiad 1983), c.m. £2.50 | 37. T. Gwynn Jones: <i>Cofiant Emrys ap Iwan</i> . 1912, c.c. Clasur..... £10.00 |
| 10. Alun R. Edwards: <i>O am Aros yn Norwy</i> . 1964, c.c..... £5.00 | 38. D. J. Roberts: <i>Cofiant Peter Price</i> . 1970, c.c..... £5.00 |
| 11. John Roderick Rees: <i>Cerddi</i> . 1984, c.c..... £6.00 | 39. W. J. Parry: <i>Cofiant Hwfa Môn</i> . Cofiant arbennig wedi'i argraffu a'i gyhoeddi gan gwmni Thomas Griffith, Manceinion, 1907, c.c. £10.00 |
| 12. E. V. Breese Jones: <i>Yr Adar Mân</i> . 1967, c.c..... £5.00 | 40. Pennar Griffiths: <i>Cofiant Watcyn Wryn</i> . Caerdydd, 1910, c.c..... £10.00 |
| 13. R. Bryn Williams: <i>Rhyddiaith y Wladfa</i> . 1949, c.c..... £6.00 | 41. Gomer M. Roberts: <i>Dafydd Jones o Gaio</i> . 1948, c.c..... £3.00 |
| 14. Eifion Wyn: <i>O Drum i Draeth</i> . 1929 (o Wasg Gymraeg Foyle), c.c. £7.00 | 42. W. D. P. Davies: <i>Datblygiad Duw</i> . Caernarfon, 1934, c.c..... £10.00 |
| 15. W. J. Parry: <i>Telyn Sankey</i> . (ail argraffiad), 1915, c.m..... £3.00 | 43. Tom Nefyn Williams: <i>Yr Ymchwil</i> . 1949, c.c..... £10.00 |
| 16. T. Gwynn Jones: <i>Talhaearn: Detholiad o Gerddi</i> . 1930, c.m..... £5.00 | 44. Griffith Jones: <i>Ofnadwy Ddydd</i> . Nofel allan o'r cyffredin. 1966, c.c. £4.00 |
| 17. Eirlys Gruffydd: <i>Gwrachod Cymru</i> . 1980, c.c..... £5.00 | 45. Beriah Gwynfe Evans: <i>Ditwygwyr Cymru</i> . 1901, c.c. Staen o'r meingefn..... £6.00 |
| 18. R. J. Roberts: <i>Cychau'r Gynghanedd</i> . (Wedi'i lofnodi gan y bardd), 1965, c.c..... £5.00 | 46. Ap Nathan (Gol.): <i>Emynau Dyfed</i> . c.c..... £2.50 |
| 19. James Humphreys: <i>Yr Argyfwng Cerdd</i> . 1970, c.c..... £6.00 | 47. D. Ben Rees ac R. Merfyn Jones: <i>Cymry Lerpwl a'u Crefydd</i> . 1984, c.c..... £10.00 |
| 20. Gwynfor Evans: <i>Aros Mae</i> . 1971, c.c..... £10.00 | 48. Islwyn Ffowc Elis: <i>Tabyrddau'r Babongo</i> . Aberystwyth, 1961, c.c. £2.50 |
| 21. Harri Parri a William Owen: <i>Sôn Dynion Amdanynt</i> . 1975, c.c. £5.00 | 49. D. Ben Rees: <i>Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau</i> . 1997, cyfrol newydd sbon £12.50 |
| 22. Brinley Richards: <i>Cofiant Trefin</i> . 1963, c.c..... £6.00 | 50. <i>Y Geiriadur Mawr</i> . 1994, c.c..... £10.00 |
| 23. Robin Williams, <i>Basged y Saer</i> . 1969, c.c..... £5.00 | |
| 24. W. J. Gruffydd: <i>Cofiant Syr O. M. Edwards</i> . 1937, c.c..... £5.00 | |
| 25. E. Tegla Davies: <i>Y Ffordd</i> . (Pregethau), 1959, c.c..... £5.00 | |
| 26. Roger Edwards (Gol.): <i>Y Pregethwyr</i> . Wyddgrug, 1852, c.c..... £6.00 | |
| 27. T. E. Nicholas: <i>Rwy'n Gweld o Bell</i> . (Cyflwyniad gan Pennar Davies), 1970, c.c..... £6.00 | |
| 28. Dafydd Owen: <i>Elfed a'i Waith</i> . Gwasg Penry, d.d., c.c..... £5.00 | |

CYFLWR YN DDA ONI NODIR YN WAHANOL
CLUDIANT AM DDM OS ARCHEBIR GWERTH
DROS £15 O LYFRAU

c.m. = clawr meddal c.c. = clawr caled

GWAITH WISGI FRON-GOCH

(parhad o dudalen 13)

rhai o brif symbylwyr y frwydr, pobl fel Terence MacSwiney, Maer Dinas Cork a ympryiodd i farwolaeth yng ngharchar Brixton yn 1920; J. J. O'Connell; Michael Collins a llawer o rai eraill a ddaeth yn flaenllaw yn nes ymlaen yn y frwydr dros Weriniaeth Wyddelig a daeth llawer ohonynt yn Aelodau Seneddol yn Iwerddon fel yr aeth y frwydr dros ryddid rhagddi. Camddealltwriaeth yw'r gred fod Eamon De Valera wedi bod yn garcharor yno. Ni fu ar gyfyl y lle.

Mae dau ŵr yn fyw heddiw sydd yn cofio'r Gwyddelod yn y Fron-goch, sef Cadwaladr Roberts, mab y diweddar Bob Tai'r Felin a John Roberts o'r Bala, gŵr a fu'n gweithio yno pan oedd oddeutu un ar bymtheg oed ac a oedd wedi gwneud ffrindiau gyda Michael Collins. Disgrifia John Roberts Wersyll y Gogledd fel un llawer gwell na Gwersyll y De. 'Roedd yn lanach o lawer ond yn ofandwy o oer a gwlyb. Nid oedd yno ffyrdd o werth gan fod mwd trwchus ymhobman a chái'r carcharorion dair ceiniog yr awr am gario lludw i geisio gwneud 'ffyrdd' yn y mwd.

Mae'n disgrifio Collins fel gŵr a wisgai yn dda, ond nid coler a thei, ac 'roedd ei esgidiau yn fudron o hyd. 'Roedd yn uchel ei barch gan bawb ac 'roedd gan weithwyr cyffredin y gweryll dipyn o feddwl ohono. Person teg ac yn smociwr trwm. 'Roedd hefyd yn ŵr heini iawn ac ar y blaen yn wastad pan oedd y carcharorion yn gorfod mynd ar orymdeithiau. Penderfynodd Collins ei fod am ddysgu Cymraeg a chafodd gymorth John Roberts i gael geiriadur a'r Wyddor Gymraeg a thalodd amdanynt. Nid oedd Collins fyth yn brin o arian meddai.

Mae Fron-goch yn bwysig yn hanes Iwerddon. Er mai carchar ydoedd 'roedd hufen gwrthryfelwyr y wlad wedi eu casglu mewn un man ac felly yn medru rhoi dyfodol y frwydr dros ryddid ar waith yno. Fel y denygs hanes cafwyd y rhyddid hwnnw yn Iwerddon i gyd ar wahân i'r Chwe Sir.

Heddiw nid oes dim i ddynodi fod Gwaith Wisgi wedi bod yno, na'r ffaith y bu yno Garchar Rhyfel. Mae'r orsaf wedi ei hen gau, fel y mae'r lein o'r Bala i Flaenau Ffestiniog hithau wedi ei datgymalu, a dymchwelwyd yr Eglwys hefyd. Ar safle'r Gwaith Wisgi a Gwersyll y De saif Ysgol Gynradd Bro Tryweryn ond ysgol wahanol iawn yw hon i'r un a fu yno yn 1916.

CROESO I'R EISTEDDFOD

BYDD PABELL Y
GYMDEITHAS AR
FAES YR EISTEDDFOD
GENEDLAETHOL YN
Y BALA ELENÍ
A HONNO Y DRWS
NESAF I
SIOP YR HEN BOST.

COFIWCH YMWELD Â
NI AM SGWRS A
PHANED.

TREFNIR RAFFL
HEFYD.